



Cau Meddygfa Cwmllynfell

**Mae hon yn ddogfen ymgysylltu ar gais
Partneriaeth Aman Tawe i gau Meddygfa
Cwmllynfell a chynyddu gwasanaethau yn
Ystalyfera a Brynaman**

**Ymgysylltu â'r Cyhoedd o 8 Ebrill i
20 Mai 2019**

Pwy rydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rhedeg eich gwasanaethau GIG lleol yn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, gwasanaethau arbenigol i Dde-orllewin Cymru a gwasanaethau arbenigol iawn i bobl o ardaloedd pellach i ffwrdd.

Rydym yn cynllunio gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr yn ogystal â darparu gwasanaethau yn y gymuned megis nyrsys ardal, therapyddion, nyrsio ysgolion ac ymweliadau iechyd.

Mae Tri prif ysbyty gennym – Treforys, Singleton, Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â un ysbyty cymunedol a Gorseinon. Rydym yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned ac i gleifion mewnol ac amrywiaeth lawn o wasanaethau anableddau dysgu i boblogaeth fwy fyth. Rydym yn eich helpu i aros yn heini ac yn iach trwy ddarparu gwybodaeth a chymorth am ffyrdd o fyw iach.

Mae dros 350,000 o bobl yn byw yn Bae Abertawe ac rydym yn cyflogi dros 11,000 o staff.

Drwy hyn oll, rydym yn gweithio'n agos gyda chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y gwasanaeth ambiwlans, awdurdodau lleol, prifysgolion a'r sector gwirfoddol.

Beth yw'r ddogfen ymgysylltu hon a phwy ddylai ei darllen?

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein GIG yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy ac o safon uchel ar gyfer y nifer gynyddol o bobl y mae angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau pan fyddant yn dost. Felly, weithiau mae rhaid newid gwasanaethau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

Fel arfer, nid yw gwasanaethau meddygon teulu yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan Fyrrddau Iechyd, mae contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol [GMC] rhwng y Bwrdd Iechyd a meddyg teulu, lle mae naill ai unigolyn neu bartneriaeth yn darparu gwasanaethau i gleifion mewn ardal poblogaeth y cytunwyd arni.

Ar hyn o bryd, mae gan Bartneriaeth Aman Tawe dau contract GMC, y naill gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r llall gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae'r bartneriaeth yn darparu gwasanaethau dros

chwe safle i'r gymuned yn ac o gwmpas Ystalyfera, Cwmllynfell, Pontardawe, Gwaun Cae Gurwen, Brynaman a Garnant.

Nid yw'r eiddo GMC presennol yng Nghwmllynfell yn ateb y gofyn ac mae Partneriaeth Aman Tawe wedi gwneud cais i'r Bwrdd Iechyd am gymeradwyaeth i gau'r safle yng Nghwmllynfell. Hoffai'r Bwrdd Iechyd a'r Partneriaeth weithio gyda'r boblogaeth i sefydlu sut y gall cleifion barhau i ddefnyddio gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ddiogel ac yn effeithiol.

Pam mae'n rhaid iddo newid?

Adeiladwyd safle Cwmllynfell yn 1850 fel tŷ ar wahân. Yn y 1980au fe'i newidiwyd i feddygfa gyffredinol ac yn y 1990au fe'i hailwampiodd i'r cynllun sydd yn y safle heddiw, sydd yn gyfyngedig.



Yn 2017, cynhyrchwyd adroddiad am gyflwr yr adeilad. Nodwyd yn yr adroddiad nad yw'r eiddo yn diwallu safonau gofal iechyd cyfredol ac mae pryderon Iechyd a Diogelwch hefyd i gleifion a staff. Mae angen gwaith ailwampio ar bob rhan o'r adeilad, a bydd hyn yn anodd i'w gyflawni oherwydd cynllun yr adeilad a'r costau i wneud y gwaith.

Ni cheir cyfleusterau parcio (gan gynnwys unrhyw leoedd parcio i'r anabl). Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd clinigol yn gyfyngedig iawn oherwydd y dyluniad gwael ac ni fu'n bosibl i wella cynllun yr ystafelloedd hyn. Ni cheir cyfleusterau i bobl ag anableddau ac mae mynediad i bobl mewn

cadeiriau olwyn yn anodd oherwydd cynllun yr adeilad. At ei gilydd, nid yw'r adeilad yn diwallu safonau cyfredol i Bractisau Cyffredinol.

Bydd cyfleoedd i leihau nifer y practisau yn gwella cynaliadwyedd a pharhad gofal clinigol ymhellach a gwneud i'r model practis hwn yn fwy deniadol i ddarpar feddygon teulu a'r gweithlu presennol. Bydd cefnogi'r gweithlu a gwneud hwn yn lle deniadol i weithio yn gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gleifion. Bydd mynediad i gleifion sydd angen teithio yn cael ei adolygu a bydd opsiynau cludiant cymunedol yn cael eu gweithredu'n llawn.

Felly, pa wasanaethau sy'n mynd i newid?

Mae Partneriaeth Aman Tawe wedi gwneud cais ffurfiol i gau safle eu cangen yng Nghwmllynfell, ond mae'r bartneriaeth yn ymrwymedig i wasanaethu poblogaeth Cwmllynfell ac yn credu bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir o'r safleoedd safon isel hyn yn cael eu peryglu.

Nid oes safleoedd amgen eraill yn yr ardal y gall y bartneriaeth drosglwyddo eu gwasanaethau iddynt. Yn 2017 cynlluniodd Tîm Cynllunio Cyfalaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ailddatblygu Neuadd Les Cwmllynfell a chawsant ddyfynbris gan gontractwr cymeradwy i gyflawni'r prosiect. Roedd cost arfaethedig y gwaith ailddatblygu yn fwy na'r arian oedd ar gael i ailddatblygu safleoedd ac ni fyddai hyn yn darparu gwerth da am arian gofal iechyd. Dyma'r pellter i deithio i leoliadau practisiau amgen:

Cwmllynfell – Brynaman	2.4 milltir
Cwmllynfell – GCG	3.9 milltir
Cwmllynfell – Ystalyfera	4 milltir
Cwmllynfell – Pontardawe	8.2 milltir

Oherwydd y cyfyngiadau hyn, y cynnig yw cynyddu gwasanaethau ar safleoedd Brynaman ac Ystalyfera gyda threfniadau cludiant cymunedol yn eu lle i sicrhau bod cleifion yn cael cludiant i gael mynediad i wasanaethau o'r safleoedd hyn. Ni fydd unrhyw newid i'r ffordd y darperir gwasanaethau

Mae'r Practis yn gweithredu gyda thîm amlddisgyblaethol gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr, ymarferwyr nyrsio, nyrsys practis a gweithwyr gofal iechyd ac mae ganddo fynediad hefyd i atgyfeirio i wasanaethau mynediad cyflym allanol eraill megis Physio Direct, fferyllfeydd cymunedol a gwasanaethau gofal llygad os bydd y rhain yn ateb anghenion y claf yn well.

Mae'r Practis yn gweithredu system ymgynghori â meddyg teulu dros y ffôn lle mae staff wedi cael eu hyfforddi i ateb galwadau cleifion a chyfeirio'r claf i'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd priodol fel bod cleifion yn cael eu brysbennu'n briodol.

Bydd y gweithiwr proffesiynol brysbennu yn cytuno ar y cam gweithredu gorau i'r claf yn seiliedig ar ei anghenion a bydd dewis o gael ymgynghoriad dros y ffôn neu gael galwad yn ôl gan staff y dderbynfa i gynnig apwyntiad ar y diwrnod gyda chlinigydd priodol. Bydd hwn yn cael ei gynnal yn unrhyw un o'r safleoedd cyfredol yn Ystalyfera, Pontardawe, Gwaun Cae Gurwen, Brynaman a Garnant yn dibynnu ble mae'r clinigydd yn gweithio ar y diwrnod hwnnw.

Yng Nghwmllynfell mae darpariaeth apwyntiadau wyneb i wyneb fel a ganlyn:

- 3 sesiwn meddyg teulu yr wythnos (dydd Llun a dydd Mawrth AM)
- 3 sesiwn nyrs practis (dydd Llun a dydd Mawrth AM) wedi'u hategu gan 3 sesiwn gweithiwr cymorth gofal iechyd (dydd Llun PM, dydd Mawrth PM a dydd Iau PM)
- 1 sesiwn ymarferydd iechyd (dydd Iau PM)
- Mae'r safle ar gau drwy'r dydd ddydd Mercher a dydd Gwener a bore Iau hefyd.

Cynigir ail-ddarparu'r ddarpariaeth hon mewn lleoliadau amgen. Archwilir cyfleoedd trafniadaeth gymunedol er mwyn sicrhau mynediad ar gyfer cleifion.

Beth yw manteision y newidiadau hyn?

- Prif fantais y newid hwn yw gwell cynaliadwyedd y model practis
- Gwell cyfleusterau a fydd yn rhoi modd i'r bartneriaeth ddarparu gwasanaethau iechyd o'r radd flaenaf

- Mwy o fynediad i leoliadau Practis mwy addas mewn safleoedd amgen yn darparu mynediad i ystod ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol

Beth yw anfanteision y newidiadau hyn?

- Llai o fynediad ar gyfer cleifion Cwmllynfell mewn Practis yn eu pentref ac angen i deithio
- Problemau cludiant i gleifion

Beth yw'ch barn am y cais i gau Meddygfa Cwmllynfell?

Bydd rhaid i'r Bwrdd Iechyd ystyried a yw cleifion cofrestredig y practis yn gallu parhau i gael gwasanaethau meddygol cyffredinol yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl gan ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol.

Ar y cyd â Chyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe Community Health Council, sef corff gwarchod y GIG yn ein hardal ni, byddwn yn trafod y cynnig hwn â chleifion cofrestredig y practis, eu gofalmwr, y cyhoedd, gwleidyddion a sefydliadau partner i gael eu barn a'u hawgrymiadau.

Rhwng 8 Ebrill a 20 Mai byddwn yn ymgysylltu ar y cais gan Bartneriaeth Aman Tawe i gau Meddygfa Cwmllynfell a chynyddu gwasanaethau a'u safleoedd gerllaw.

Rydym wedi cytuno ar amrywiaeth a chwmpas yr ymgysylltu gyda Chyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe a byddwn yn cynnal digwyddiadau galw heibio yng Nghwmllynfell. Bydd y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Iechyd yn ystyried canlyniad yr ymgysylltu gan bwysu a mesur yr adborth a geir ar y cais hwn.

Bydd panel adolygu yn cael ei drefnu i ystyried y cais gan y Practis, gan gynnwys yr holl wybodaeth ategol, canlyniad yr ymgysylltu â chleifion a barn rhanddeiliaid allweddol. Bydd y panel yn ystyried yr wybodaeth a ddarperir a chytuno ar argymhelliad i'w gyflwyno i Fwrdd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd.

Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn trwy:

Ysgrifennu atom:	Tîm Gofal Sylfaenol Ymgysylltu Cwmllynfell Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
------------------	--

	Bloc A Port Talbot SA12 7BX
Anfon e-bost atom:	ABM.Cwmllynfell@wales.nhs.uk
Ffonio:	01639 684581 a 01639 684631

Rydym wedi cynhyrchu ffurflen ymateb i'w gwneud yn haws i chi ymateb i'r ymgysylltu hwn. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech lenwi hon.